



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 28 Chwefror 2021

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Ymhen ychydig ddyddiau, bydd hi'n Ddydd Gŵyl Dewi a hwnnw'n un gwahanol iawn i'r arfer. Dim cyngherddau mawreddog, swperau nac adeiladau yn llawn pobl wedi ymgasglu i ddatlu eu Cymreictod. Felly mae un o ddathliadau amlycaf Cymru yn cael ei ychwanegu at y rhestr hirfaith o gerrig milltir a digwyddiadau sydd wedi cael eu gweddnewid oherwydd y pandemig. Ond fydd hyn yn effeithio ar ein Cymreigrwydd? Heb gawl cennin a chorau'n canu, ydym ni'n llai o Gymry? Mae geiriau'r bardd Eifion Wyn – 'gwisg genhinen yn dy gap a gwisg hi yn dy galon' yn awgrymu bod angen mynd yn ddyfnach na'r hyn sydd i'w weld ar yr wyneb (neu'r cap!) os yw rhywun am fod yn 'Gymro hoff o'th wlad'. Wn i ddim beth ysbrydolodd y bardd i ysgrifennu'r llinell enwog hon, ond mae hi'n adleisio egwyddor bwysig i Gristnogaeth wrth i ni ystyried beth sydd 'yn ein calon' a sut mae hynny'n cael ei weld gan eraill.

Nid gweithredoedd rhywun sy'n eu gwneud yn Gristion. Rwy'n dweud hyn gan fod y Beibl yn ein dysgu bod gwir ffydd yn ymddiriedaeth bersonol yn Iesu Grist fel Arglwydd a Gwardwr:

'Os wnei di gyffesu 'â'th wefusau', "Iesu ydy'r Arglwydd", a chredu 'yn dy galon' fod Duw wedi'i godi yn ôl yn fyw ar ôl iddo farw, cei dy achub. Credu yn y galon sy'n dy wneud di'n iawn gyda Duw, a chei dy achub wrth gyffesu hynny'n agored.'
(Rhufeiniaid 10:9-10 beibl.net)

Ond wedi dweud hyn, mae'r Beibl hefyd yn pwysleisio'r cysylltiad anorfod rhwng credoau a gweithredoedd. Dywed y Testament Newydd y dylai gwir ffydd yng Nghrist arwain at weithredoedd penodol. Os yw rhywun wedi profi bywyd newydd trwy'r Ysbryd Glân, a maddeuant yn sgil aberth Iesu ar y groes, dylai hyn fod yn amlwg yn eu bywydau. Aeth Iago mor bell â dweud: *'Fel y mae'r corff heb anadl yn farw, felly hefyd y mae ffydd heb weithredoedd yn farw.'* (Iago 2:26)

Felly yn y cyfnod anodd hwn lle mae cymaint o'r arferol ddim yn opsiwn, dylem ofyn i ni'n hunain, beth sydd yn fy nghalon? Beth ydwi i wir yn ei gredu? Ac wrth i ni wneud hynny, fy ngobaith yw y byddwn trwy arweiniad yr Ysbryd Glân yn ymddiried yng Nghrist gan ddod i brofiad dyfnach o gariad Duw. Yn sgil hynny, byddwn wedyn wedi'n harfogi o'r newydd i allu byw'r bywyd o weithredoedd da y mae Duw wedi ei drefnu inni o'r dechrau. (Effesiaid 2:10)

Rhodri

Arian Sasiwn Chwiorydd y Gogledd

Derbyniwyd neges yn diolch am haelioni Chwiorydd Sasiwn Gymraeg y Gogledd a gyfrannodd £7,232.00 tuag at Gasgliad Arbennig y Chwiorydd yn 2020 – diolch i chi i gyd am eich haelioni. Trwy Gymru gyfan, cafwyd cyfanswm o £16,298.82 ac aeth 75% o'r casgliad hwnnw tuag at brosiectau tramor lle mae llawer o wledydd tlawd y byd yn dioddef oherwydd COVID-19.

Yn ôl Dr Dina, Cwnselydd ar Ward K, Ysbyty Durtlang, Mizoram, mae Ward K yn orlawn ac maent wedi gorfod gwagu yr adran ENT er mwyn cael lle i'r cleifion yno.

Mae Lesotho ynghanol eu hail don o'r feirws, a'r pentrefi cyfagos yn cael eu heffeithio. Mae teuluoedd a phlant amddifad heb fwyd. Byddai derbyn arian yn helpu iddynt brynu sachau mawr o flawd india corn, oledw coginio a siwgr.

Eleni, bydd Dathliad Cenhadol Merched y Gogledd yn cael ei gynnal yn rhithiol a hynny ar ddydd Iau, Mai 6^{ed}. (Manylion ymuno i ddilyn.) Y thema fydd 'Myfi yw'r Bugail Da'. Mae'r gwasanaeth wedi ei baratoi gan Chwiorydd Capel y Traeth, Cricieth a bydd anerchiad gan Mererid Hopwood.

Bydd trysorydd eich eglwys yn ddiolchgar o dderbyn unrhyw gyfraniadau tuag at Gasgliad Arbennig y Chwiorydd 2021 erbyn Mawrth 18fed, os gwelwch yn dda. (A wnaiff y trysoryddion anfon yr arian i Mair yn ystod yr wythnos ddilynol, gydag unrhyw sicciau yn daladwy i Gofalaeth Bro Aled, plis?)

Ymgysylltu â'r Gymuned

Mae Cyngor Sir Ddinbych a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr wedi gofyn i dîm annibynnol 'Practice Solutions' ganfod yr hyn y mae pobl Dinbych a'r ardaloedd cyfagos (gan gynnwys pobl sir Conwy sy'n defnyddio gwasanaethau yn Ninbych) eisiau ym mhob agwedd o wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, tai a chymunedol. Bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio i gynllunio gwasanaethau dros y 25 mlynedd nesaf er mwyn rhoi'r gwasanaethau gorau posibl i gefnogi ein hiechyd a'n lles wrth i ni heneiddio. Maen nhw'n awyddus i ganolbwyntio ar faterion sy'n effeithio ar rai dros 50 oed, ond yn croesawu ymateb gan bobl o bob oed, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion iechyd ehangach a'u gofalgwyr. Maen nhw'n awyddus i ganfod yr hyn sydd o werth i ni, yr hyn yr hoffem ei gael a'r hyn yr ydym yn credu y mae angen ei wella. Mae hynny'n cynnwys pob math o gefnogaeth, e.e. cefnogaeth yn y gymuned, cludiant gwirfoddol, gweithgareddau grŵp, gwasanaethau meddygol, ynghyd â gofal a chefnogaeth. Os oes gennych ddiddordeb mewn siarad â nhw, cysylltwch â Rhian ar 07468 484003 neu e-bost rhian@practicesolutions-ltd.co.uk. Fel arall, gallwch gymryd rhan yn eu harolwg ar-lein: countyconversation.denbighshire.gov.uk/projectcy/57. Bydd angen i chi gysylltu'n fuan er mwyn iddynt allu cynhyrchu eu hadroddiad erbyn diwedd Mawrth.

Cyhoeddiadau'r Fro

Sul – 28^{ain}

- **Ysgol Sul ar-lein**
Cynhelir Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. (Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.)
- **Oedfa FYW ar y we**
Cynhelir oedfa am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno.)
- **Cyfarfod Gweddi** (ar ZOOM) am 8:00 yr hwyr. (Cliciwch ar y llun 'Cyfarfod Gweddi' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] i ymuno.)

Mawrth – 2^{il}

- **Cwrs y Beibl** (ar ZOOM) am 7:30 yr hwyr – y chweched sesiwn. (Cliciwch ar y llun 'Cwrs y Beibl' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] i ymuno.)

Sul – 7^{fed}

- **Ysgol Sul ar-lein**
Cynhelir Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. (Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.)
- **Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd** (Llanefydd) ar ZOOM am 10.00.
- **Oedfa FYW ar y we**
Cynhelir oedfa am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno.)
- **Cyfarfod Gweddi** (ar ZOOM) am 8:00 yr hwyr. (Cliciwch ar y llun 'Cyfarfod Gweddi' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] i ymuno.)

Llun 8^{fed}

- **Dewch at y Bwrdd** (ar ZOOM) am 7:00 yr hwyr – Y sesiwn olaf ond un mewn cyfres o astudiaethau ar Salm 23 o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwirydd EBC. (Manylion mewngofnodi: <https://us02web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0203 901 7895 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071)

Mawrth – 9^{fed}

- **Cwrs y Beibl** (ar ZOOM) am 7:30 yr hwyr. (Cliciwch ar y llun 'Cwrs y Beibl' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] i ymuno.)

Sul – 14^{eg}

- **Ysgol Sul ar-lein**
Cynhelir Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. (Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.)
- **Oedfa FYW ar y we**
Cynhelir oedfa am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno.)
- **Cyfarfod Gweddi** (ar ZOOM) am 8:00 yr hwyr. (Cliciwch ar y llun 'Cyfarfod Gweddi' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] i ymuno.)

Cydymdeimlad, Cofion a Llongyfarchion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Ceridwen Evans (Llansannan) a Gwyn Evans (Llanfair) ym marwolaeth Nerys, merch Ceridwen a chwaer i Gwyn. Cofiw'n yn annwyl iawn amdanoch fel teulu yn eich profedigaeth sydyn ac annisgwyl. Gweddiwn y cewch eich amgylchynu â chariad Duw ac y bydd yn rhoi nerth a chynhaliadaeth i chi yn y brofedigaeth hon eto. Yn yr un modd, cofiw'n am Llinos Howatson (Llanefydd) a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli tad Llinos, Tomi Roberts. Gweddiwn y byddwch chwithau'n profi Duw yn gwarchod drosoch ac y byddwch, ynghanol eich galar, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth i chi. Estynnwn ein cydymdeimlad ag eraill o'n plith sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf hefyd. Hyderwn y cewch oll adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drosoch.

Parhawn i gofio am Eirlys Owen (Llanefydd) sy'n cael gofal yn Ysbyty Rhuthun fel ag y mae Dilys Vaughan (Saron) yn yr Inffirmari, ac anfonwn ein cofion hefyd at Eirlys Owen (arall o Llanefydd!) fu yn Ysbyty Glan Clwyd dros nos. Dymunwn adferiad iechyd buan iawn i'r tair ohonoch a phawb arall o'r Fro sydd heb fod yn dda, gan hyderu y byddwch yn profi daioni'r Arglwydd yn eich cynnal yn eich angen.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Ann Morris (Llansannan) sydd newydd ddathlu pen-blwydd arbennig!

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych chi angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (10^{fed}), os gwelwch yn dda.